

Pam cyflawni yr Arts Award?



Sut mae'n wahanol i arholiadau gradd gerdd?

Mae yr Arts Award yn gymhwyster sy'n seiliedig ar bortffolio, gan ymuno ar y cyd gydag arholiadau graddedig cerdd, neu fel cymhwyster unigol. Er mwyn cyflawni'r Arts Award byddwch yn ymwneud â chreu cerddoriaeth yn ymarferol, gwrando ar gerddoriaeth fyw, ymchwilio a darganfod am gerddorion sy'n eich ysbrydoli, a chyflwyno eich sgiliau neu arwain prosiectau. Wrth i chi fynd ymlaen byddwch yn casglu tystiolaeth o'ch taith yn ymwneud â'r Arts Award journey. Gallwch wneud hyn ar-lein, neu mewn cofnod y celfyddydau a fydd yn cael ei asesu gan eich cynghorydd yr Arts Award.

Mae pum lefel i'r Arts Award ac mae'n ofynnol ar gyfer y lefelau uwch eich bod yn cyflwyno eich sgiliau i rywun arall neu'n cynllunio ac arwain prosiect. Mae'n cynorthwyo i ddatblygu eich sgiliau cyfathrebu a'ch hunanhyder a gall gynorthwyo gyda chyflawni gwaith ysgol neu goleg arall.

Sut mae'n cymharu ag arholiadau gradd?

Arts Award	Lefel Cymhwyster	Graddau Cerdd (safon cyfatebol)	Arholiadau Ysgol (lefel gyfatebol o her)
Darganfod	Gwobr Gyflwyniadol	Amherthnasol	Amherthnasol
Archwilio	Lefel Mynediad 3	Cychwynnol (Prifysgol y Drindod Llundain)	Amherthnasol
Efydd	Lefel 1	1-3	Graddau TGAU 1-3:
Arian	Lefel 2	4-5	Graddau TGAU 4-9
Aur	Lefel 3	6-8	Lefel AS (16 pwynt UCAS)